Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Canllawiau Ymgeisio Medr ar gyfer Dynodi Cyrsiau'n Benodol – Darparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog

Hydref 2025

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Mae'r canllawiau hyn yn nodi'r broses ar gyfer **darparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog (SCITTs) sy'n ceisio dynodiad penodol ar gyfer cyrsiau sy'n arwain at gymhwyster fesul achos unigol.**

Nid yw cyrsiau sy'n arwain dim ond at ddyfarnu Statws Athro Cymwysedig, heb unrhyw gymhwyster ffurfiol, yn gallu cael eu dynodi'n benodol ar gyfer cymorth i fyfyrwyr.

Nid yw cyrsiau lle mae myfyriwr yn cael cyflog yn gallu cael eu dynodi'n benodol.

Mae'r canllawiau hyn yn darparu gwybodaeth am brosesau Medr i sicrhau bod darparwyr yn cydymffurfio â gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer dynodi'n benodol**.**

**Cyflwyniad**

1. Mae'r canllawiau hyn yn nodi'r broses ar gyfer darparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog (SCITTs) sy'n ceisio dynodiad penodol ar gyfer cyrsiau sy'n arwain at gymhwyster fesul achos unigol. **Nid yw cyrsiau sy'n arwain dim ond at ddyfarnu Statws Athro Cymwysedig yn gallu cael eu dynodi'n benodol ar gyfer cymorth i fyfyrwyr.**

2. Mae'r canllawiau hyn yn darparu gwybodaeth am brosesau Medr i sicrhau bod darparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog yn cydymffurfio â gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer dynodi'n benodol a bod eu cyrsiau'n gallu cael eu dynodi ar gyfer myfyrwyr newydd.

3. Dynodi'n benodol yw'r broses sy'n galluogi darparwyr addysg uwch nad ydynt wedi'u dynodi'n awtomatig ar gyfer cymorth i fyfyrwyr gan Weinidogion Cymru i ymgeisio am ddynodiad ar gyfer cyrsiau penodol at ddibenion cymorth i fyfyrwyr fesul cwrs unigol. **Nid yw dynodi'n benodol yng Nghymru ond yn berthnasol i ddarparwyr y mae arnynt eisiau i fyfyrwyr sy'n byw fel arfer yng Nghymru gael mynediad at gymorth i fyfyrwyr ar gyfer cyrsiau penodol.** Efallai y gall myfyrwyr cymwys sy'n hanu o'r UE ac sy'n astudio yng Nghymru gael mynediad at gymorth i fyfyrwyr, gan ddibynnu ar eu sefyllfa; gweler Cyllid myfyrwyr: addysg uwch: Myfyrwyr o'r Undeb Ewropeaidd am ragor o fanylion.

4. Mae'r cymorth gyda ffioedd dysgu sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n astudio mewn darparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog, fel gyda'r holl ddarparwyr eraill y mae'n ofynnol i'w cyrsiau gael eu dynodi'n benodol, yr un fath â'r hyn sydd ar gael i'r rhai sy'n "Astudio mewn prifysgol neu goleg preifat yng Nghymru, Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon". Ar hyn o bryd mae'r gyfradd amser llawn yn gyfanswm o £6,165.[1]

5. Drwy'r canllawiau hyn mae adrannau o bolisi Llywodraeth Cymru wedi cael eu hailadrodd mewn blychau wedi'u graddliwio gyda llythrennau italig. Mae'r testun ar ôl y blychau hyn yn nodi sut y bydd Medr yn ateb gofynion polisi Llywodraeth Cymru.

6. Ar hyn o bryd, mae gan y mathau canlynol o ddarparwyr addysg uwch eisoes gyrsiau a ddynodwyd gan Weinidogion Cymru i ganiatáu i fyfyrwyr sy'n byw fel arfer yng Nghymru ymgeisio am gymorth i fyfyrwyr ar gyfer eu cyrsiau addysg uwch:
   - sefydliadau yng Nghymru sydd â chynllun ffioedd a mynediad a gymeradwywyd gan CCAUC neu Medr;
   - sefydliadau a gyllidir yng Nghymru (ar gyfer cyrsiau israddedig ac ôl-radd rhan-amser);
   - sefydliadau yn Lloegr sydd wedi'u cofrestru gyda'r Swyddfa Fyfyrwyr yn y categori (cap ffioedd) cymeradwy;
   - sefydliadau a gyllidir yn yr Alban;
   - sefydliadau a gyllidir yng Ngogledd Iwerddon;

[1] Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018

- darparwyr addysg uwch (**dim ond** ar gyfer y cyrsiau hynny a restrir) sydd wedi'u cynnwys ar y rhestr o gyrsiau dynodedig ar wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru[2].

7. **Ni ddylai** darparwyr addysg uwch sydd â chyrsiau wedi'u dynodi gan weinyddiaethau eraill y DU, neu reoleiddwyr eraill yn y DU, dybio eu bod wedi'u dynodi gan Weinidogion Cymru i fyfyrwyr sy'n byw fel arfer yng Nghymru ymgeisio am gymorth i fyfyrwyr. Ni ddylai darparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog ond cynnig lleoedd i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru unwaith y maent wedi cael cadarnhad gan y Gweinidogion bod eu cyrsiau penodedig wedi cael eu dynodi ar gyfer cymorth i fyfyrwyr.

8. Bydd unrhyw ddarparwr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog sy'n llwyddiannus gyda'i gais am ddynodiad penodol yn cael ei ddosbarthu'n gorff addysg uwch perthnasol a bydd angen ar unwaith iddo gydymffurfio â deddfwriaeth y Ddyletswydd Prevent[3]. **Mae'r rhai sydd â'u pencadlys yng Nghymru'n dod dan awdurdod monitro Medr oni bai eu bod eisoes yn cael eu harolygu gan Estyn.**[4] Mae'r Swyddfa Gartref bellach wedi dirprwyo cyfrifoldeb i Medr am fonitro cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd Prevent yn unol â Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015. Bydd Medr yn parhau i ddefnyddio cylchlythyr Fframwaith Monitro CCAUC W19/25HE sy'n nodi sut yr arferai CCAUC fonitro'r modd yr oedd darparwyr yn rhoi'r Ddyletswydd Prevent statudol ar waith, a fydd yn dal i fod yn ei le nes cyhoeddir canllawiau gan Medr. Mae angen i gyrff addysg uwch perthnasol ddilyn y fframwaith hwn i ddangos eu bod yn rhoi sylw dyladwy i'r Ddyletswydd. I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â sicrwydd@medr.cymru.

## Rhagor o wybodaeth

9. Os bydd yr ymgeisydd yn cael ei ddynodi bydd rhaid iddo ddangos yn flynyddol ei fod yn cydymffurfio'n barhaus â pholisi Llywodraeth Cymru.

10. Os nad yw'n glir i ddarparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog beth yw eu statws dynodi neu os oes ganddynt unrhyw ymholiadau pellach ynghylch y canllawiau hyn dylent gysylltu â Medr am eglurhad yn cyngorrheoleiddio@medr.cymru.

[2] Cyllid Myfyrwyr Cymru: Cyrsiau Dynodedig
[3] Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015
[4] Bydd darparwyr nad yw eu pencadlys yng Nghymru'n cael eu monitro gan yr awdurdod perthnasol yn y wlad honno.

## Canllawiau ynghylch proses Medr ar gyfer ymgeisio

11. Mae’r canllawiau hyn yn berthnasol i ddarparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog (SCITTs) yn unig.

***Polisi Llywodraeth Cymru ar Ddynodi’n Benodol***

*Dylid anfon ceisiadau i Medr, sydd wedi datblygu canllawiau ategol i gefnogi’r broses. Bydd Medr yn asesu pob cais ar sail yr wybodaeth a dderbynnir ac yna bydd yn cynghori Gweinidogion Cymru ynghylch a ddylid dynodi'r cwrs. Bydd y dynodiad yn cael ei roi gan Weinidogion Cymru. Cyfrifoldeb ymgeiswyr yw sicrhau bod yr wybodaeth a gyflwynir i gefnogi eu cais yn gyflawn. (**Paragraff 28)***

*Bydd statws dynodi penodol ar gyfer cyrsiau unigol yn cael ei ddyfarnu ar sail dreigl fesul blwyddyn academaidd. Bydd gofyn i ddarparwyr ddangos eu bod yn parhau i fodloni’r meini prawf bob blwyddyn drwy broses fonitro Medr. Bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu yn nogfen ganllawiau Medr.* ***(Paragraff 34)***

*Medr fydd yn gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth darparwyr â meini prawf dynodiad penodol cwrs yn dilyn dynodi’r cyrsiau. Bydd Medr hefyd yn darparu cyngor i Weinidogion Cymru ar gydymffurfiaeth barhaus sefydliadau â’r meini prawf ar gyfer dynodi penodol.* ***(Paragraff 35)***

*Disgwylir i ddarparwyr gydymffurfio’n brydlon â’r cais rhesymol am wybodaeth gan Medr mewn perthynas â chyrsiau dynodedig. Bydd Medr yn adrodd i Weinidogion Cymru os yw gwybodaeth y gwneir cais amdani yn cael ei gwrthod neu ei dal yn ôl gan ddarparwyr.* ***(Paragraff 36)***

*Mae’r Rheoliadau Cymorth i Fyfyrwyr yn caniatáu i Weinidogion Cymru atal neu ddiddymu dynodiad cyrsiau penodol. Wrth wneud hyn, bydd Gweinidogion Cymru yn rhoi ystyriaeth i bob ffactor perthnasol.* ***(Paragraff 39)***

*Er enghraifft, caiff Gweinidogion Cymru atal neu ddiddymu dynodiad os na pharheir i gydymffurfio â’r meini prawf neu os na ddarperir gwybodaeth y gofynnir amdani gan Medr neu os oes oedi cyn darparu’r wybodaeth honno.* ***(Paragraff 40)***

*Gall Gweinidogion Cymru atal taliadau cymorth myfyrwyr i ddarparwyr i ddiogelu cronfeydd cyhoeddus a myfyrwyr. Gellir cymryd camau o’r fath mewn achosion lle mae twyll, camliwio neu gamwedd arall gan ddarparwyr a/neu fyfyrwyr yn destun ymchwiliad neu wedi’u profi.* ***(Paragraff 41)***

*Gellir atal dynodiad darparwr os nad oes unrhyw fyfyrwyr yn cael eu hymrestru ar gwrs am gyfnod o ddwy flynedd academaidd yn olynol.* ***(Paragraff 42)***

12. Gwahoddir darparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog i gyflwyno’u ffurflen gais (sydd ar gael yn **Atodiad B**), ynghyd â’r rhestr o gyrsiau

ategol sydd wedi'i hatodi yn **Atodiad C**. Dylai'r holl geisiadau gael eu lanlwytho i gyfleuster lanlwytho diogel a ddiffinnir gan Medr. Dylai darparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog sydd â diddordeb mewn ymgeisio i gyrsiau gael eu dynodi'n benodol ar gyfer cymorth i fyfyrwyr hysbysu Medr ynghylch eu bwriad ar y dyddiad cynharaf posibl trwy anfon neges e-bost i cyngorrheoleiddio@medr.cymru.

13. Hysbysir darparwr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog sy'n cyflwyno cais y gall eu dynodiad gael ei atal os na fydd unrhyw fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru wedi'u hymrestru ar gwrs am ddwy flynedd academaidd olynol.

14. Sylwer y bydd y broses ymgeisio fel arfer yn cymryd hyd at dri mis o'r dyddiad y cyflwynir cais cyflawn nes ceir penderfyniad terfynol. Fodd bynnag, gall penderfyniadau gan gyrff rheoleiddio eraill ac ansawdd gwybodaeth a gyflwynir ein hatal rhag cwblhau'r broses o fewn y graddfeydd amser hyn (er enghraifft, darparu'r wybodaeth honno mewn modd anghyflawn neu annigonol).

15. Dylai darparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog fod yn ymwybodol nad oes gennym fynediad at wybodaeth a gyflwynwyd i gyrff rheoleiddio neu gyhoeddus eraill, ac felly bod Medr yn disgwyl i ddarparwyr gyflwyno'r holl wybodaeth berthnasol a allai effeithio neu ddylanwadu ar y broses ymgeisio.

16. Mae polisi Llywodraeth Cymru ar ddynodi'n benodol yn cynnwys diagram sy'n manylu ar y broses ar gyfer gofyn am ddynodiad. Mae'r diagram wedi'i gynnwys fel **Atodiad A** wrth y canllawiau hyn.

17. Corff llywodraethu, bwrdd neu gorff cyfatebol o fewn strwythur y darparwr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog sy'n gyfrifol am, ac y mae'n rhaid iddo gymeradwyo, y cais i Medr. Bydd hyn yn cael ei gadarnhau trwy lofnodi'r ffurflen gais. Rhaid i'r cais gynnwys cysylltiadau a enwir i Medr gysylltu â hwy yn ogystal â manylion yr uwch berson yn y sefydliad â goruchwyliaeth dros ddynodiad penodol os yw'n wahanol.

18. Bydd Medr yn ystyried yr wybodaeth a gyflwynwyd a bydd yn disgwyl i'r darparwr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog fod â staff ar gael i drafod y cais. Os oes angen rhagor o wybodaeth ar Medr, efallai y gofynnir i ddarparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog ddarparu tystiolaeth bellach i ategu'r wybodaeth wreiddiol a gyflwynwyd. Gallai hyn arwain at oedi gyda'r cais. Bydd swyddogion Medr yn cefnogi darparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog trwy'r broses hon.

19. Unwaith y mae'r darparwr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog wedi cyflwyno'r holl wybodaeth sy'n ofynnol i Medr i gael ei hasesu, ac yn dilyn ystyriaeth ddyladwy, bydd Medr yn rhoi cyngor i Weinidogion Cymru pa un a ddylai'r cwrs/cyrsiau a restrwyd gan y darparwr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog gael ei/eu d(d)ynodi ar gyfer cymorth i fyfyrwyr ai peidio.

20. Yn seiliedig ar wybodaeth a gafwyd gan Medr, bydd Llywodraeth Cymru'n ysgrifennu at y darparwr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog i'w hysbysu ynghylch penderfyniad Gweinidogion Cymru. Os nad yw Gweinidogion

Cymru o blaid dynodi'r cyrsiau a gyflwynwyd yn y cais, bydd Llywodraeth Cymru'n darparu rhesymau dros y penderfyniad. Bydd y darparwr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog yn cael cynnig cyfle i ddarparu gwybodaeth ychwanegol ar gyfer Llywodraeth Cymru, a allai effeithio neu beidio ag effeithio ar benderfyniad y Gweinidogion. Bydd y broses ar gyfer hyn yn cael ei dynodi gan Lywodraeth Cymru ar yr adeg berthnasol fesul achos unigol.

21. Cyfrifoldeb darparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog yw sicrhau nad oes unrhyw wybodaeth yn cael ei chyhoeddi i ddynodi y byddai cymorth i fyfyrwyr ar gael i fyfyrwyr newydd sy'n byw fel arfer yng Nghymru nes bod y darparwr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog wedi cael cadarnhad bod y cwrs wedi cael ei ddynodi. Gallai hyn gynnwys dogfennau recriwtio a thudalennau gwe.

22. Unwaith y mae Llywodraeth Cymru wedi hysbysu darparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog ynghylch penderfyniad y Gweinidogion, bydd y rhestr o gyrsiau a ddynodwyd yn benodol yn cael ei diweddaru a'i chyhoeddi gan Cyllid Myfyrwyr Cymru.

23. Os bydd cwrs darparwr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog wedi cael ei ddynodi bydd yn ofynnol iddo wedyn, yn flynyddol, ddangos ei fod yn bodloni meini prawf Llywodraeth Cymru ar gyfer dynodi cwrs yn benodol. Bydd Medr yn cysylltu â'r darparwr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog bob blwyddyn i nodi'r meini prawf ar gyfer y broses fonitro hon ac yn cyhoeddi canllawiau ar ei wefan.

24. Unwaith y maent wedi'u dynodi, mae'n ofynnol i ddarparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog hysbysu Llywodraeth Cymru a Medr ynghylch newidiadau i'w sefyllfa yn ystod cyfnod y dynodiad gan gynnwys materion llywodraethu a digwyddiadau difrifol (h.y. digwyddiadau sy'n ymwneud ag ansawdd, cyllid a llywodraethu) a godwyd gyda'u prif reoleiddiwr, yr awdurdodau neu eu sefydliad dyfarnu. Er enghraifft, rhaid i ddarparwr roi gwybod inni os yw wedi gorfod hysbysu Adran Addysg y DU, y Comisiwn Elusennau, yr Heddlu neu CaThEF ynghylch digwyddiad difrifol.

## Arweiniad i gwblhau'r ffurflen gais

25. Mae'r adran hon o'r ddogfen yn nodi gofynion Medr ar gyfer darparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog sy'n amcanu at ddangos tystiolaeth eu bod yn bodloni pob maen prawf ym mholisi Llywodraeth Cymru ar ddynodi'n benodol. Rhaid darparu'r wybodaeth hon yn y ffurflen sydd wedi'i hatodi yn **Atodiad B**, fel a gyfarwyddir gan y testun yn y ffurflen oni nodir fel arall.

## A. Manylion llawn y darparwr addysg uwch

26. Mae ar Medr angen manylion llawn y darparwr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog at ddibenion cynnal rhestr gywir a chyfoes o gyrsiau a ddynodwyd yn benodol. Bydd y rhestr hon yn cael ei chynnal a'i rhannu gyda'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr.

***Polisi Llywodraeth Cymru ar Ddynodi'n Benodol***

*Fel arfer, ni fydd cais am ddynodiad yn cael ei gymeradwyo tra bod ymchwiliad yn cael ei gynnal i'r darparwr:*

- *gan lywodraethau Cymru, y DU, yr Alban neu Ogledd Iwerddon neu gan y rheoleiddiwr yn y gwledydd hyn;*
- *gan y corff sy'n gyfrifol am ddilysu ei ddyfarniadau;*
- *gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr mewn perthynas â mater sy'n ymwneud â darpariaeth addysg uwch y darparwr;*
- *gan sefydliad neu asiantaeth sy'n gyfrifol am ansawdd yr addysg uwch a ddarperir;*
- *gan ei reoleiddiwr elusen; neu*
- *mewn cysylltiad â throsedd honedig.* ***(Paragraff 37)***

*Gall Gweinidogion Cymru ystyried canlyniad ymchwiliad wrth benderfynu a ddylid dynodi cwrs ai peidio.* ***(Paragraff 38)***

*Gall Gweinidogion Cymru atal taliadau cymorth myfyrwyr i ddarparwyr i ddiogelu cronfeydd cyhoeddus a myfyrwyr. Gellir cymryd camau o'r fath mewn achosion lle mae twyll, camliwio neu gamwedd arall gan ddarparwyr a/neu fyfyrwyr yn destun ymchwiliad neu wedi'u profi.* ***(Paragraff 41)***

27. Mae ar Medr angen cadarnhad gan y darparwr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog nad yw'n destun ymchwiliad ar hyn o bryd gan unrhyw lywodraeth nac asiantaeth lywodraethol na'r mathau o sefydliadau a restrir uchod. Gall Medr godi materion fel rhan o'i berthynas weithio gydag unrhyw un neu rai neu bob un o'r sefydliadau canlynol fel y bo angen:
Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol, yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch, y Comisiwn Elusennau, Estyn ac Ofsted. Bydd cydweithio agos rhwng Medr a'r sefydliadau hyn yn cyfrannu at amlygu materion sy'n achosi pryder. Byddwn hefyd yn cynnal cyswllt â'r Swyddfa Fyfyrwyr lle y bo angen.

28. Mae gwybodaeth y mae ar Medr ei hangen am y darparwr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog yn cynnwys:
    - enw'r darparwr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog;
    - prif gyfeiriad y darparwr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog, a'i gyfeiriad cyfreithiol os ydynt yn wahanol;
    - rhif cofrestru'r darparwr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog fel darparwr yn y DU (UKPRN);
    - rhif y Comisiwn Elusennau (lle y bo'n berthnasol);
    - math o Elusen (lle y bo'n berthnasol);

- Os nad yw'n elusen, enw'r cwmni a rhif y cwmni;
- unrhyw enwau eraill y mae'r darparwr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog yn gweithredu oddi tanynt;
- cadarnhad nad yw'r darparwr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog yn destun ymchwiliad; neu
- fanylion unrhyw ymchwiliadau sy'n mynd rhagddynt gan gynnwys y sefydliad sy'n cynnal yr ymchwiliad a'r rhesymau dros yr ymchwiliad.

## B. Rhestr o gyrsiau i'w dynodi ar gyfer cymorth i fyfyrwyr gan gynnwys gwybodaeth berthnasol

29. Bydd Medr yn ei gwneud yn ofynnol cwblhau rhestr o gyrsiau sydd wedi'i hatodi yn **Atodiad C**, a honno'n nodi'r holl gyrsiau y mae'r darparwr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog yn dymuno iddynt gael eu dynodi.

30. Mae ar Medr angen i'r wybodaeth ganlynol gael ei chynnwys ar y rhestr o gyrsiau:
    - Categori'r cyllid (h.y. Israddedig, Ôl-radd, Ôl-radd Lwfans i Fyfyrwyr Anabl yn unig)
    - Teitl y cwrs;
    - Cymhwyster yr anelir ato;
    - Hyd astudio (blynyddoedd);
    - Dull astudio;
    - Cyfeiriad cyflwyno'r cwrs;
    - Corff dyfarnu;
    - Cadarnhad o reolaeth ar y cwrs;
    - Dyddiadau dilysu (dyddiad dechrau i'r dyddiad gorffen);
    - Yr holl fyfyrwyr / myfyrwyr sy'n parhau
    - Ffioedd blynyddol y cwrs;
    - Amcangyfrif o gyfanswm[5] nifer y myfyrwyr;
    - Amcangyfrif o gyfanswm nifer y myfyrwyr o Gymru;
    - Dyddiad dechrau'r cwrs;
    - Sylwadau ychwanegol (os yn ofynnol).

31. Mae ar Medr angen copi o'r cytundeb(au) partneriaeth priodol fel tystiolaeth i ategu'r cais a hynny ar gyfer pob cwrs a restrir ar gyfer dynodiad. Rydym yn disgwyl i'r cytundeb hwn ddangos tystiolaeth o'r gofynion o ran gwybodaeth fel a nodir yn y paragraffau a ganlyn. Yn arbennig, dylai'r cytundeb ddangos yn glir pwy sydd â rheolaeth ar y cwrs a beth yw hyd y dilysiad. Rhaid i'r sefydliad dyfarnu fod yn gorff cydnabyddedig (fel a nodir ym mharagraffau 42 a 43 isod). Rhaid i gyfnod y dilysiad gwmpasu'r cwrs trwy gydol y flwyddyn academaidd y mae'r darparwr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog yn ceisio dynodiad ar ei chyfer, a galluogi myfyrwyr i gwblhau eu hastudiaethau.

32. Lle mae'r darparwr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog yn gorff dyfarnu graddau yn ei rinwedd ei hun yna bydd angen iddo gadarnhau'r cyfnod ar

[5] Cyfanswm ar gyfer yr holl garfannau sy'n astudio'r cwrs hwnnw nid dim ond y garfan sydd i fod i ddechrau yn y flwyddyn academaidd.

gyfer y pwerau dyfarnu graddau hynny. Os yw'r darparwr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog yn y broses o adnewyddu ei bwerau dyfarnu graddau yna dylai ddarparu diweddariad atodol ar y cynnydd yn hynny o beth.

***Polisi Llywodraeth Cymru ar Ddynodi'n Benodol***

***Cyrsiau sy'n gymwys i'w dynodi***

***Cyrsiau gradd***

*Gellir dynodi cwrs gradd os yw'n:*

- *Gwrs gradd gyntaf.*
- *Cwrs ar gyfer y Ddiploma Addysg Uwch. Cwrs ar gyfer y Diploma Cenedlaethol Uwch (HND) neu Dystysgrif Genedlaethol Uwch (HNC) a ddyfernir naill ai gan Pearson (y Cyngor Addysg Busnes a Thechnoleg (BTEC) gynt) neu Awdurdod Cymwysterau'r Alban (SQA).*
- *Cwrs ar gyfer y dystysgrif Addysg Uwch.*
- *Cwrs ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon.*
- *Cwrs ar gyfer hyfforddiant pellach gweithwyr ieuenctid a chymunedol.*
- *Cwrs i baratoi at arholiad proffesiynol sydd o safon uwch nag:*
    - *arholiad ar lefel uwch ar gyfer y Dystysgrif Addysg Gyffredinol neu ar lefel uwch ar gyfer Tystysgrif Addysg yr Alban; neu*
    - *arholiad ar gyfer y Dystysgrif Genedlaethol neu'r Diploma Cenedlaethol a ddyfernir gan Pearson (BTEC gynt) neu Awdurdod Cymwysterau'r Alban*

  *cyn belled nad oes angen gradd gyntaf (neu gymhwyster cyfwerth) ar ei gyfer fel arfer.*
- *Cwrs sy'n darparu addysg (waeth i baratoi ar gyfer arholiad ai peidio) y bydd ei safon yn uwch na safon y cyrsiau a grybwyllir uchod ond nad yw'n uwch na safon cwrs gradd gyntaf, ac nad oes angen gradd gyntaf (neu gymhwyster cyfwerth) ar ei gyfer fel arfer.*
- *Mae'r cwrs naill ai'n gwrs llawnamser, yn gwrs rhyngosod, neu'n gwrs rhan-amser.*
- *Mae hyd y cwrs yn un flwyddyn academaidd o leiaf.*
- *Mae o leiaf hanner yr addysgu a'r oruchwyliaeth sy'n ffurfio'r cwrs yn cael eu darparu yn y Deyrnas Unedig.*
- *Mae'r cwrs yn arwain at ddyfarniad a ddyfernir neu sydd i'w ddyfarnu gan gorff sy'n dod o fewn cwmpas adran 214(2)(a) neu (b) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988*[6] *oni bai bod y cwrs yn Ddiploma Cenedlaethol Uwch neu'n Dystysgrif Genedlaethol Uwch a ddyfernir gan Pearson (BTEC gynt) / SQA, neu'n gwrs hyfforddiant cychwynnol i athrawon.* ***(Paragraff 7)***

***Cyrsiau ôl-radd***

*Mae cwrs meistr ôl-raddedig yn gwrs dynodedig os yw'n bodloni pob un o'r amodau canlynol:*

[6] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1988/40/contents

- *Mae’r cwrs yn arwain at ddyfarniad a ddyfernir neu sydd i'w ddyfarnu gan gorff sy’n dod o fewn adran 214(2)(a) neu (b) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 ac mae'r addysgu a'r oruchwyliaeth sy'n ffurfio'r cwrs wedi'u cymeradwyo gan y corff hwnnw.*
- *Mae’r cwrs yn un o’r canlynol:*
    - *cwrs llawn amser am flwyddyn neu ddwy flynedd academaidd;*
    - *cwrs rhan-amser y mae fel arfer yn bosibl ei gwblhau ymhen pedair blynedd academaidd.*
- *Mae o leiaf hanner yr addysgu a’r oruchwyliaeth sy’n ffurfio’r cwrs yn cael eu darparu yn y Deyrnas Unedig.* ***(Paragraff 8)***

*Mae cwrs doethurol ôl-raddedig yn gwrs dynodedig os yw’n bodloni pob un o’r amodau canlynol:*

- *Nid yw hyd y cyfnod cofrestru arferol ar gyfer y cwrs yn llai na thair blynedd academaidd nac yn fwy nag wyth mlynedd academaidd.*
- *Mae'r cwrs yn cael ei ddarparu i raddau helaeth yn y Deyrnas Unedig.*
- *Mae'r cwrs yn arwain at radd ddoethuriaeth a ddyfernir neu sydd i'w ddyfarnu gan gorff sy'n dod o fewn cwmpas adran 214(2)(a) neu (b) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988; ac mae'r addysgu a'r oruchwyliaeth wedi'u cymeradwyo gan y corff hwnnw.* **(*Paragraff* 9)**

*Hefyd, mae cyrsiau sy’n arwain at ddyfarniad ôl-radd yn gallu cael eu dynodi’n unswydd er mwyn darparu Lwfans i Fyfyrwyr Anabl i fyfyrwyr cymwys.* (***Paragraff 10)***

33. Mae angen i’r rhestr o gyrsiau nodi’r cymhwyster yr anelir ato, hyd y cwrs a’r dull astudio i sicrhau y gellir dynodi’r cwrs. Mae’r rhestr o gyrsiau yn y blwch sydd wedi’i raddliwio uchod yn nodi’r mathau hynny o gyrsiau y gellir eu dynodi ar gyfer cymorth i fyfyrwyr.

34. Mae gwahanol fathau o gyrsiau’n gymwys ar gyfer gwahanol fathau o gymorth i fyfyrwyr a rhaid i’r cyrsiau fod wedi’u rhestru yn y rhestr o gyrsiau dan naill ai israddedig, ôl-radd (dim ond cyrsiau Meistr a Doethurol) ac Ôl-radd Lwfans i Fyfyrwyr Anabl yn unig (e.e. tystysgrifau a diplomâu ôl-radd).

35. **Nid yw Statws Athro Cymwysedig (SAC) ynddo’i hun yn cael ei ystyried yn gymhwyster ac nid yw cyrsiau sy’n arwain dim ond at ddyfarnu SAC yn gallu cael eu dynodi’n benodol ar gyfer cymorth i fyfyrwyr**. Yn unol â’r rheoliadau cymorth i fyfyrwyr, ni all dynodiad ond bod yn berthnasol i gwrs lle mae’r myfyriwr yn cael cymhwyster ffurfiol, a ddyfernir gan gorff cydnabyddedig, fel TAR gyda SAC, a dim ond os nad yw’r myfyriwr dan sylw’n cael cyflog.

***Polisi Llywodraeth Cymru ar Ddynodi’n Benodol***

*Mae angen dynodiad penodol ar gyfer pob lleoliad lle cynigir y cwrs. Os yw darparwyr wedi derbyn dynodiad ar gyfer lleoliadau penodol ac am ychwanegu lleoliadau ychwanegol wedi hynny, bydd angen iddynt wneud cais ar gyfer y lleoliadau hynny ar wahân. Os yw darparwyr am gael gwared ar leoliad neu ei newid, yna dylent gysylltu â*

*Medr am wybodaeth am y broses i'w dilyn yn sgil newid mewn amgylchiadau.* ***(Paragraff 29)***

36. Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog gadarnhau cyfeiriad cyflwyno'r holl gyrsiau y bydd darparwyr yn dymuno iddynt gael eu dynodi ar gyfer y flwyddyn academaidd. Lle y bo'n berthnasol, dylai hyn gynnwys lleoliadau cyflwyno newydd ar gyfer cyrsiau a ddynodwyd eisoes. Mae rheoliadau cymorth i fyfyrwyr yn datgan bod rhaid bod o leiaf hanner yr addysgu a'r oruchwyliaeth ar gyfer cwrs yn digwydd yn y DU.

***Polisi Llywodraeth Cymru ar Ddynodi'n Benodol***

*Mae'n rhaid i geisiadau i ddynodi cyrsiau'n benodol gael eu gwneud gan y sefydliad sy'n gyfrifol am gynnwys a darpariaeth y cwrs i fyfyrwyr. Yn mhob achos, mae'n rhaid i'r cais gwmpasu a chynnwys gwybodaeth ategol mewn perthynas â phob sefydliad sy'n cyfrannu at ddyfarnu cymwysterau a chynllun, goruchwyliaeth a darpariaeth y cyrsiau hynny. Pan ddarperir cwrs ar ran sefydliad arall, bydd hyn yn golygu darparu gwybodaeth ategol fanwl gan y ddau sefydliad lle bo hynny'n briodol.* ***(Paragraff 27)***

37. Rhaid i Medr fod wedi'i argyhoeddi bod gan y darparwr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog sy'n cyflwyno cwrs a ddynodwyd yn benodol 'reolaeth' ar y cwrs. Bydd Medr yn ystyried bod gan ddarparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog sy'n cyflwyno cyrsiau dan drefniadau dilysu reolaeth ar y cwrs.

38. Mae'n annhebygol y byddir yn ystyried bod gan ddarparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog sy'n cyflwyno cyrsiau dan drefniadau is-gontractio, a adwaenir hefyd fel trefniadau breinio, reolaeth ar y cwrs ac ni fyddant yn gallu trefnu bod cyrsiau'n cael eu dynodi'n benodol yn eu rhinwedd eu hunain. Yn y senario hwn, byddir yn ystyried fel arfer mai'r corff dyfarnu sydd â rheolaeth ar y cwrs a lle'r corff hwnnw fydd ymgeisio am ddynodiad ar gyfer y cwrs. Bydd Medr yn dal i fod angen gwybodaeth am y sefydliad sy'n cyflwyno (h.y. y darparwr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog).

39. Mae Medr yn defnyddio'r diffiniad canlynol ar gyfer trefniadau dilysu:
"Cyrsiau y trefnir eu bod ar gael ac a addysgir gan un sefydliad sy'n arwain, o'u cwblhau'n llwyddiannus, at gymhwyster a ddyfernir fel arfer gan sefydliad arall â phwerau dyfarnu graddau. Fel arfer bydd y cwrs wedi cael ei ddylunio gan y sefydliad sy'n addysgu ac nid y sefydliad sy'n dyfarnu. Bydd cytundeb dilysu yn ei le, lle mae'r corff dilysu'n ceisio sicrwydd ynghylch ansawdd y cwrs a'i gyflwyno ond yn gadael rhyddid i'r sefydliad sy'n addysgu o ran sut y mae'n addysgu'r cwrs. Y sefydliad â phwerau dyfarnu graddau yw'r corff dilysu a dyfarnu ar gyfer y cwrs, tra bo gan y sefydliad sy'n addysgu'r cwrs reolaeth ar y ddarpariaeth, a chyfrifoldeb cytundebol llawn tuag at y myfyriwr am ddarparu addysg."[7]

---

[7] W16/13HE: Canllawiau ar drefniadau partneriaeth ar gyfer addysg freiniol ar ran sefydliadau rheoleiddiedig yng Nghymru

40. Mae Medr yn defnyddio’r diffiniad canlynol ar gyfer cytundebau is-gontractio: “Cyrsiau y trefnwyd eu bod ar gael gan un sefydliad, lle mae peth neu’r cyfan o’r addysgu’n cael ei ddarparu gan gorff arall dan drefniant isgontractio. Fel arfer bydd y cwrs wedi cael ei ddylunio gan y sefydliad cyntaf, a fydd fel arfer yn gosod ei ofynion ei hun o ran addysgu ac asesu. Mae gan y sefydliad cyntaf hwnnw gyfrifoldeb cytundebol llawn tuag at y myfyriwr ar gyfer darparu addysg, er nad yw ei staff yn addysgu’r cwrs (i gyd). Fel arfer, y sefydliad hwnnw fydd y corff dyfarnu ar gyfer cymhwyster y cwrs hefyd, ond mewn achosion eithriadol efallai mai trydydd parti fydd hwn.”[8]

41. Lle mae darparwyr yn bwriadu cyflwyno cyrsiau ar draws nifer o leoliadau bydd angen iddynt gyflwyno gwybodaeth neu dystiolaeth i ddangos sut y maent wedi sicrhau bod unrhyw leoliadau newydd yn addas, yn diwallu anghenion myfyrwyr, ac yn cynnig profiad tebyg i’w prif leoliadau.

***Polisi Llywodraeth Cymru ar Ddynodi’n Benodol***

***Cyrsiau gradd***

*Mae’n rhaid i ddarparwyr ddarparu dogfennau dilysu sy’n nodi modd, hyd a lleoliad darpariaeth pob cwrs yn y cais. Mae’n rhaid iddynt arddangos bod y cwrs yn cael ei ddilysu gan gorff dyfarnu priodol a'i fod yn arwain at:*

- *ddyfarniad gan gorff sy’n dod o dan adran 214(2)(a) neu (b) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 (h.y. corff cydnabyddedig fel y rhagnodir yng Ngorchymyn Addysg (Cyrff sy'n Cael eu Cydnabod) (Cymru) 2016); neu*
- *Diploma Cenedlaethol Uwch neu Dystysgrif Genedlaethol Uwch gan Gyngor Addysg Busnes a Thechnoleg, Asiantaeth Cymwysterau’r Alban, neu gorff cydnabyddedig fel y rhagnodir yng Ngorchymyn Addysg (Cyrff sy'n Cael eu Cydnabod) (Cymru) 2016.* ***(Paragraff 14)***

***Cyrsiau ôl-radd***

*Mae’n rhaid i gwrs arwain at ddyfarniad a roddir neu a fydd yn cael ei roi gan gorff sy'n dod o dan adran 214(2)(a) neu (b) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988. Mae cyrsiau sy’n arwain at ddyfarniad ôl-radd hefyd yn gallu cael eu dynodi’n unswydd er mwyn darparu Lwfansau Myfyrwyr Anabl i fyfyrwyr cymwys. Mae’n rhaid i gorff cydnabyddedig fel y rhagnodir gan Orchymyn Addysg (Cyrff sy'n Cael eu Cydnabod) (Cymru) 2016 ddilysu’r cyfryw gyrsiau.* ***(Paragraff 15)***

42. Rhaid i’r corff dyfarnu fod yn gorff cydnabyddedig fel a nodir yng Ngorchymyn Addysg (Cyrff Cydnabyddedig) (Cymru) 2016[9] neu’n un sy’n cynnig darpariaeth a gyflwynir trwy drefniadau gyda Pearson neu Awdurdod Cymwysterau’r Alban. Dim ond cyrsiau sy’n arwain at ddyfarniad gan y cyrff dyfarnu hyn ellir eu dynodi. Mae

[8] Fel uchod
[9] www.legislation.gov.uk/wsi/2016/396/pdfs/wsi_20160396_mi.pdf

angen ystyried hyn wrth ddarparu'r wybodaeth sy'n ofynnol yn yr adran hon o'r canllawiau.

43. Os yw darparwr yn gorff dyfarnu, rhaid iddo fod yn gorff cydnabyddedig yn ei rinwedd ei hun. Lle mae corff dyfarnu'n cyflwyno gwybodaeth am gwrs a ddarperir ar ei ran, rhaid iddo ddarparu copi o gytundeb breinio sy'n berthnasol, wedi'i lofnodi ac yn gyfoes gyda'i gais.

## C. Mae'r ddarpariaeth a gynigir gan y darparwr o ansawdd digonol

***Polisi Llywodraeth Cymru ar Ddynodi'n Benodol***

*Mae'n rhaid i'r cwrs sydd i gael ei ddynodi fod o ansawdd digonol. Bydd gofyn i ddarparwyr ddarparu tystiolaeth o hyn gan y sefydliad neu asiantaeth sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd y cwrs. Y sefyllfa yng Nghymru, a rhannau eraill o'r DU, yw y dylid asesu ansawdd drwy adolygiadau ansawdd allanol cylchol. Yn y rhannau hynny o'r DU lle nad yw'n ofynnol i ddarparwyr asesu eu hansawdd drwy adolygiadau ansawdd allanol cylchol, bydd Medr yn darparu arweiniad pellach ar yr wybodaeth sydd ei hangen i'w galluogi i roi sicrwydd i Weinidogion Cymru ynghylch ansawdd y ddarpariaeth.* ***(Paragraff 16)***

44. Rhaid i'r holl ddarparwyr addysg uwch sy'n ymgeisio i gael dynodi eu cyrsiau'n benodol ar gyfer cymorth i fyfyrwyr yng Nghymru allu darparu tystiolaeth eu bod yn cyflwyno addysg o ansawdd sy'n diwallu anghenion eu myfyrwyr. Mae Medr wrthi'n datblygu Fframwaith Ansawdd[10] ond nes bod y Fframwaith newydd yn cael ei gyhoeddi, dylai ymgeiswyr gyfeirio at y canllawiau presennol a gyhoeddwyd ar wefan Medr[11]. Mae'r canllawiau'n amlinellu'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol ar gyfer Cymru mewn perthynas ag ansawdd.

45. Er mwyn i Medr fod â sicrwydd bod gofynion y Fframwaith Asesu Ansawdd cyfredol wedi'u bodloni, byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl ddarparwyr fod wedi cwblhau adolygiad sicrhau ansawdd allanol. Y dull a ffefrir ar gyfer hyn yw adolygiad gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA). Fel arfer byddem yn disgwyl y dylai darparwyr addysg uwch sy'n ymgeisio am ddynodiad penodol ar gyfer eu cyrsiau fod wedi cael o leiaf un adolygiad sicrhau ansawdd allanol llwyddiannus gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yn y pedair blynedd ddiwethaf; ein disgwyliad yw mai'r broses Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru fyddai hyn. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod, lle mae darparwr yn ceisio dynodiad ar gyfer cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon, mai'r arolygiaeth ysgolion berthnasol yw'r sefydliad mwyaf priodol i ddarparu sicrwydd ynghylch ansawdd y cyrsiau hynny. Gan hynny, rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl ddarparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog ddangos tystiolaeth eu bod wedi cael eu harolygu'n llwyddiannus gan yr arolygiaeth ysgolion berthnasol,

[10] Ansawdd
[11] Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru

h.y. Estyn, Ofsted, Education Scotland neu'r Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant. Dylai hyn gynnwys ystyried yr asesiadau a wnaed i asesu addasrwydd cyfleusterau a chymorth ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio yn y lleoliadau hynny, sut y mae llais myfyrwyr wedi cael ei ystyried ar gyfer y rhai sy'n gwneud cyrsiau yn y lleoliadau newydd hynny, a pha leoliadau cymorth penodol fydd ar gael ar y safle ym mhob un o'r lleoliadau hynny.

46. Hefyd, bydd Medr yn ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog gyflwyno'r canlynol i ddangos ei fod wedi cynnal hanes llwyddiannus o ddarparu addysg uwch ers ei adolygiad diwethaf:
   - Cadarnhad bod gan y darparwr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog weithdrefnau asesu ansawdd mewnol;
   - Cadarnhad bod y corff llywodraethu, neu gorff cyfatebol, wedi cael adroddiad sy'n ystyried yr arolygiad, a sicrwydd bod cynllun gweithredu wedi cael ei roi ar waith a'i gyflawni fel y bo'n briodol, mewn partneriaeth gyda'r corff myfyrwyr;
   - lle nad yw darparwr wedi cael unrhyw adolygiadau sicrhau ansawdd allanol, cadarnhad bod y corff llywodraethu, neu gorff cyfatebol, wedi cael adroddiad sy'n ystyried unrhyw argymhellion gan gyrff rheoleiddio eraill, arholwyr allanol a chyrff dyfarnu a sicrwydd bod camau gweithredu priodol wedi cael eu cymryd i ymateb i'r argymhellion hynny;
   - Cadarnhad bod gan y corff llywodraethu, neu gorff cyfatebol, oruchwyliaeth effeithiol ar ganlyniadau graddau ac uniondeb academaidd;
   - Cadarnhad bod y darparwr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog wedi cyhoeddi datganiad lefel uchel (gyda dolen) ynglŷn â sut y mae buddiannau myfyrwyr yn cael eu gwarchod a'r trefniadau sydd ar waith i gyflawni hyn, er enghraifft mewn achosion lle mae darparwr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog yn rhoi'r gorau i fodoli, lle mae cwrs wedi cael ei dynnu'n ôl neu ei newid yn sylweddol neu os yw dilysiad cwrs yn newid neu'n cael ei dynnu'n ôl;
   - dolenni i adroddiadau perthnasol gan arolygiaethau neu adroddiadau monitro sicrhau ansawdd allanol perthnasol, er enghraifft adroddiadau Ofsted; a
   - dolenni i adroddiadau achredu gan Gyrff Statudol a Rheoleiddio Proffesiynol fel y maent yn berthnasol i gyrsiau penodol.

## D. Mae'r darparwr yn ariannol hyfyw

***Polisi Llywodraeth Cymru ar Ddynodi'n Benodol***

*Mae'n rhaid i'r darparwr sydd am i'w gwrs gael ei ddynodi ddangos ei fod yn gynaliadwy yn ariannol ac felly y gall myfyrwyr fod yn hyderus y bydd yn parhau i fod yn hyfyw yn ariannol gydol eu hastudiaethau. Bydd angen i ymgeiswyr ddarparu'r wybodaeth ganlynol er mwyn arddangos eu bod yn gweithredu mewn ffordd sy'n hyfyw yn ariannol. Er enghraifft:*

- *datganiadau ariannol y tair blynedd diwethaf wedi'u harchwilio'n allanol, neu ddatganiadau ariannol wedi'u harchwilio'n allanol ar gyfer pob blwyddyn o fasnachu lle nad yw'r darparwr wedi bod yn masnachu ers tair blynedd;*
- *blaengynlluniau busnes;*
- *rhagolygon ariannol ar gyfer y flwyddyn gyfredol a'r tair blynedd nesaf, gan gynnwys sylwadau ar ragdybiaethau a wnaed mewn rhagolygon a sut y rheolir risgiau ariannol;*
- *amlinelliad o drefniadau wrth gefn ar gyfer myfyrwyr os yw cyrsiau dod i ben am unrhyw reswm;*
- *unrhyw wybodaeth arall a allai fod yn berthnasol i hyfywedd ariannol y darparwr a rheolaeth ei faterion ariannol fel agwedd ar lywodraethu da. (**Paragraff 17)***

47. Rhaid i ddarparwr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog ddarparu gwybodaeth ar gyfer Medr i ddangos tystiolaeth o'i hyfywedd ariannol, gan gynnwys tystiolaeth ei fod yn gynaliadwy dros y tymor canolig (o leiaf dair blynedd o ddyddiad dechrau'r cwrs). Dylai'r dystiolaeth fod yn ddigon i roi hyder rhesymol i Medr a Gweinidogion Cymru na fydd myfyrwyr yn wynebu risg o fethu â chwblhau eu cwrs o ganlyniad i fethiant ariannol.

48. Lle mae darparwr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog eisoes wedi cyflwyno gwybodaeth y mae arnom ni ei hangen i gorff arall, megis yr Adran Addysg yn Lloegr, gellir cyflwyno'r wybodaeth hon i ni yn yr un fformat.

49. Dylai darparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog gyflwyno manylion llawn eu strwythur grŵp corfforaethol, lle y bo'n berthnasol, gan gynnwys manylion holl gwmnïau neu sefydliadau'r grŵp, gan gynnwys is-gwmnïau, rhiant-gwmnïau/cwmnïau daliannol a mentrau cysylltiol neu ar y cyd.

50. Fel y bo'n briodol, gall yr asesiad o hyfywedd ariannol ystyried trefniadau ariannol unrhyw strwythur grŵp (gan gynnwys is-gwmnïau, rhiant-gwmnïau/cwmnïau daliannol, neu fentrau cysylltiol a/neu ar y cyd) lle ystyrir bod hynny'n berthnasol i hyfywedd ariannol, er enghraifft i gael sicrwydd ynghylch unrhyw ddibyniaethau o fewn y grŵp.

51. Rhaid i ddarparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog gyflwyno gwybodaeth sy'n dangos y canlynol:

    i. **Strwythur grŵp** – Lle y bo'n berthnasol, dylai darparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog gyflwyno manylion llawn eu strwythur grŵp corfforaethol, gan gynnwys manylion holl gwmnïau neu sefydliadau'r grŵp, gan gynnwys is-gwmnïau, rhiant-gwmnïau/cwmnïau daliannol a mentrau cysylltiol neu ar y cyd. Lle ystyrir bod hynny'n berthnasol, gall yr asesiad o hyfywedd ariannol ystyried sefyllfa ariannol y strwythur grŵp ehangach a threfniadau oddi mewn iddo.

    ii. **Perfformiad hanesyddol** – Hanes o berfformiad ariannol a ddangosir gan adroddiadau blynyddol a datganiadau ariannol llawn a archwiliwyd yn allanol ar gyfer y tair blynedd cyn cyflwyno'r cais. Rhaid bod y cyfrifon wedi cael eu harchwilio bob blwyddyn gan archwilydd cofrestredig. Y sail ar gyfer y cyfrifon

fydd Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU (UK GAAP) (neu ofynion olynol) neu’r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) os yn briodol. Lle cyflwynir datganiadau ariannol talfyredig i Dŷ’r Cwmnïau neu i’r Comisiwn Elusennau, rhaid trefnu bod y datganiadau ariannol llawn ar gael i Medr.

iii. **Rhagolygon –** Dylai’r rhain gwmpasu’r flwyddyn gyfredol amcangyfrifedig ynghyd ag o leiaf dair blynedd o ragolygon. Dylent gynnwys datganiad o elw a cholled / incwm a gwariant, mantolen a datganiad llifoedd arian parod a chael eu hategu gan dybiaethau ynglŷn â niferoedd myfyrwyr. Dylai rhagolygon gael eu hategu hefyd gan sylwebaeth ar dybiaethau a wneir yn y rhagolwg a sut y caiff risgiau ariannol eu rheoli. Dan yr amgylchiadau cyfredol, dylai hyn nodi’n glir beth yw’r tybiaethau sylfaenol sy’n effeithio ar niferoedd myfyrwyr, gan fod yn gyson â’r sefyllfa economaidd gyfredol a rhesymeg ar gyfer unrhyw dwf. Rhaid i ddarparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog allu dangos tystiolaeth bod ganddynt:

a) llif arian digonol i aros yn solfent, hynny yw, digon o hylifedd i dalu dyledion wrth iddynt ddod yn ddyledus;
b) mantolen ddigonol sy'n cynnal sefyllfa cyfanswm asedau net i’r graddau na fyddai’r darparwr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog yn ysgwyddo diffygion pe bai'r rhain yn arwain at sefyllfa cyfanswm rhwymedigaethau net; ac
c) mewn senarios grŵp lle mae cynaliadwyedd ariannol y darparwr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog yn ddibynnol ar gymorth aelodau eraill y grŵp megis y rhiant-gwmni, byddem yn disgwyl bod gwarant yn cael ei darparu gan yr aelod hwnnw o’r grŵp.

Dylai'r rhagolygon ariannol llawn gynnwys y flwyddyn sy’n mynd rhagddi ar hyn o bryd a'r tair blynedd ddilynol. Dylai'r dystiolaeth gynnwys sylwebaeth ar y tybiaethau a wneir a sut y mae unrhyw risgiau ariannol yn cael eu rheoli.

Gan bod darparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog yn aml yn cynrychioli un gweithgaredd o fewn y sefydliad ehangach, rydym yn ei gwneud yn ofynnol cyflwyno rhagolygon sefydliadol cyfunol yn ychwanegol at ragolygon ar eu pennau eu hunain ar gyfer Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog, er mwyn asesu cyd-ddibyniaethau ariannol. Lle ceir arwyddion o ddibyniaeth ariannol ar aelodau eraill y grŵp, rhaid darparu rhagolygon ar gyfer aelodau eraill y grŵp.

Lle paratowyd amcangyfrifon a rhagolygon at ddibenion eraill ac, er enghraifft, bod y flwyddyn yr oedd amcangyfrifon diwedd blwyddyn yn ymwneud â hi bellach wedi dod i ben, neu mai'r flwyddyn gyntaf yn y rhagolygon yw'r flwyddyn gyfredol erbyn hyn, byddwn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol cyflwyno cyfrifon rheoli sy'n nodi'r sefyllfa wedi'i diweddaru. Sicrhewch fod y rhagolygon yn dal i rychwantu tair blynedd er mwyn i ni allu asesu cynaliadwyedd ariannol dros y cyfnod pan fydd cyrsiau wedi eu dynodi’n benodol.

b) **Strategaeth ariannol** - gwybodaeth ariannol fel blaengynllun sy'n adlewyrchu'r cynllun strategol ar y cyfan sydd ar gael ar adeg monitro

cydymffurfiaeth â meini prawf dynodiad penodol, yn gosod meincnodau a dangosyddion perfformiad priodol, yn dangos sut y bydd adnoddau'n cael eu defnyddio, a sut y bydd gweithgareddau a seilwaith yn cael eu hariannu. Dylai hyn gynnwys sut y mae darparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog yn asesu ac yn adolygu eu cynaliadwyedd, gan gynnwys defnyddio asesiadau o gynaliadwyedd. Dylai'r ddogfen hon fod yn gyson â'r rhagolygon ariannol, gan amlinellu'r rhesymeg dros unrhyw symudiadau o sefyllfa ariannol archwiliedig gyfredol yr endid trwy gyfnod y rhagolygon. Yn arbennig, cynlluniau cyflawni ar gyfer sicrhau codiad mewn perfformiad.

52. Ni fydd asesiad Medr o berfformiad a chynaliadwyedd ariannol darparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog yn cael ei ddefnyddio ar ei ben ei hun i benderfynu a yw'n bodloni'r gofyniad hwn. Bydd yr asesiad o gynaliadwyedd ariannol yn ddyfarniad ar y cyfan sydd hefyd yn ystyried cyd-destun sefyllfa ariannol y darparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog a'u strategaeth.

53. Dylid nodi, fel rhan o'r broses hon, bod Medr yn debygol o gynnal gwiriad credyd ar y darparwr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog.

54. Bydd angen i ddarparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog ddarparu tystiolaeth eu bod yn cael eu rheoli'n dda gydag arferion rheoli cadarn ar waith a'r capasiti i ddatblygu yn unol â'u strategaeth a'u rhagolygon ariannol / blaengynllun busnes.

55. Mae'n rhaid i ddarparwr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog gyflwyno gwybodaeth i ddangos y canlynol:
    i. bod ganddo brosesau rheolaeth ariannol sy'n cael eu llywodraethu'n dda a'u rheoli'n ddigonol ac yn effeithiol;
    ii. ei fod yn cynllunio a rheoli gweithgareddau i barhau'n hyfyw;
    iii. bod ganddo systemau cadarn a chynhwysfawr ar gyfer rheoli risg a rheolaeth fewnol;
    iv. bod ganddo drefniadau effeithiol ar gyfer rheoli a sicrhau ansawdd data a ddefnyddir i wneud penderfyniadau mewnol;
    v. bod ganddo wybodaeth reolaidd, ddibynadwy, amserol a digonol i fonitro perfformiad gweithredol ac ariannol;
    vi. ei fod yn cyflwyno gwybodaeth yn rheolaidd, mewn modd cynhwysfawr ac yn gywir i uwch reolwyr priodol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu;
    vii. ei fod yn rheoli ei adnoddau (gan gynnwys staff a’r ystâd) mewn ffordd gynaliadwy.

56. Dylai darparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog fod yn ymwybodol hefyd nad oes gennym fynediad at wybodaeth a gyflwynwyd i gyrff rheoleiddio neu gyhoeddus eraill ac felly ei bod yn ofynnol iddynt gyflwyno unrhyw wybodaeth a allai effeithio neu ddylanwadu ar y broses ymgeisio.

57. Dylai darparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog gynnwys naratif ar wahân am y prosesau, y cyfarfodydd a'r adolygiadau sydd ar waith i sicrhau y cydymffurfir â'r gofynion ym mharagraff 55 uchod.

58. Rhaid i ddarparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog ddarparu tystiolaeth i ddangos llywodraethu da. Lle y bo'n berthnasol, byddai hyn ar ffurf tystiolaeth o gydymffurfio ag egwyddorion cod llywodraethu priodol. Enghreifftiau o'r rhain yw'r Cod Llywodraethu Addysg Uwch[12] (Pwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion, Medi 2020), y Cod Llywodraethu Da ar gyfer Cymdeithas y Colegau[13] (Cymdeithas y Colegau, 2024) a'r Cod Llywodraethu Addysg Uwch Annibynnol[14] (Medi 2021). Gallai'r ymgeiswyr hynny sydd â statws elusennol ddangos sut y maent yn ystyried yr holl ganllawiau perthnasol ynghylch cyfrifoldebau ymddiriedolwyr ac ymddiriedolaeth effeithiol. I ateb y gofyniad hwn gall darparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog hefyd amlinellu sut y maent yn cyrraedd y safonau a nodwyd gan yr Adran Addysg yn Lloegr mewn perthynas â llywodraethu yn eu llawlyfr ariannol.[15]

## E. Cyfraniad at Fudd y Cyhoedd

***Polisi Llywodraeth Cymru ar Ddynodi'n Benodol***

*Mae gan Lywodraeth Cymru adnoddau y mae pen draw iddynt ac mae'n rhaid iddi sicrhau'r gwerth gorau ar gyfer myfyrwyr a threthdalwyr. Mae hyn yn cynnwys sicrhau, cyn belled â bod hynny'n bosibl, bod buddsoddiad trethdalwyr mewn addysg yn cael ei ail-fuddsoddi gan ddarparwyr at ddibenion addysgol, gan gynnwys gweithgareddau sy'n cefnogi mynediad i, neu'n hyrwyddo, addysg uwch, yn cyfrannu at yr addysg sydd ar gael neu'n gwella cyfraddau cadw myfyrwyr a chyflogadwyedd graddedigion. I bob diben, mae darparwyr addysg uwch y mae eu cyrsiau wedi'u dynodi ar gyfer cymorth myfyrwyr yn derbyn cymhorthdal gan y trethdalwr drwy'r cymorth sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru ar ffurf benthyciadau ffioedd dysgu i'r myfyrwyr ynghyd â grantiau a benthyciadau cynhaliaeth.* ***(Paragraff 19)***

*Mae'n rhaid i ymgeiswyr arddangos eu bod yn gwneud cyfraniad sylweddol a pharhaus at fudd y cyhoedd yn gyffredinol ym maes addysg drwy gyflwyno datganiad ysgrifenedig. Mae Llywodraeth Cymru wedi diffinio'r meysydd cyffredinol canlynol fel rhai lle gall darparwyr AU ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad o'r fath. Nid ydynt yn gategorïau cwbl ddigyswllt. Er enghraifft, gall datblygu addysg Gymraeg gyfrannu at gyfle cyfartal a hyrwyddo addysg uwch.* ***(Paragraff 20)***

***Cyfle cyfartal***

*Mae enghreifftiau'n cynnwys:*

- *Mesurau i ddenu a chadw myfyrwyr o grwpiau nad oes ganddynt gynrychiolaeth ddigonol.*

[12] Cod Llywodraethu Addysg Uwch (Pwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion) Medi 2020
[13] Cod Llywodraethu Da
[14] Cod Llywodraethu Addysg Uwch Annibynnol
[15] Llawlyfr ariannol i ddarparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog (SCITT)

- *Darparu cymorth academaidd a lles i'r rhai o grwpiau nad oes ganddynt gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig.*
- *Darpariaeth cynlluniau bwrsari, hepgor ffioedd, ysgoloriaethau neu gyllid caledi.*
- *Defnyddio a datblygu addysg cyfrwng Cymraeg a/neu'r iaith Gymraeg sy'n cefnogi amcanion strategaeth iaith Llywodraeth Cymru gan ddarparwyr sydd wedi'u lleol yng Nghymru.* ***(Paragraff 21)***

***Hyrwyddo addysg uwch***

*Mae enghreifftiau'n cynnwys:*

- *Gweithio gydag ysgolion, colegau a chyrff cyhoeddus, preifat a gwirfoddol eraill i gyfathrebu manteision addysg uwch a hyrwyddo diwylliant o ddysgu ac addysg.*
- *Datblygu cyflogadwyedd myfyrwyr, y tu hwnt i ddarpariaeth addysg, gan gynnwys cysylltiadau â chyflogwyr, datblygu cyflogadwyedd, menter neu sgiliau effeithlonrwydd personol, neu leoliadau gwaith.*
- *Ymgysylltu â'r gymuned leol drwy ddarparu mynediad i gyfleusterau, darparu mynediad am ddim neu ratach i gyrsiau neu ddarlithoedd, neu gynnig gwasanaeth fel rhan annatod o ddyletswydd ddinesig sefydliad. Gall hyn fod i'r cyhoedd neu i rai grwpiau penodol. Gall hefyd gynnwys rhaglenni lle mae myfyrwyr yn cael eu cefnogi i fod yn fwy gweithgar yn eu cymuned leol.* ***(Paragraff 22)***

*Nid yw'r rhestr uchod yn cynnwys pob enghraifft bosibl. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod gan ddarparwyr ystod eang o amcanion ac efallai y gallant ddangos cyfraniad ystyrlon at fudd y cyhoedd mewn ffyrdd eraill. Dylai'r datganiad ysgrifenedig gynnwys enghreifftiau a thystiolaeth drwy gyfeirio at rai at bob un o'r meysydd uchod ac unrhyw dystiolaeth arall y mae sefydliad yn ei hystyried yn berthnasol.* ***(Paragraff 23)***

*Bydd angen i'r wybodaeth a ddarperir gan ymgeiswyr ddangos bod y gweithgarwch yn arwyddocaol ac yn barhaus, e.e. drwy gyfeirio at swm y gwariant ar weithgareddau o'r fath, hyd y gweithgareddau hynny a niferoedd y cyfranogwyr.* ***(Paragraff 24)***

59. Mae'n ofynnol i bob darparwr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog sy'n dymuno i'w cwrs/cyrsiau gael ei/eu d(d)ynodi'n benodol gyflwyno datganiad budd y cyhoedd ar wahân yn y templed a ddarperir i Medr sy'n nodi sut y maent yn gwneud ymrwymiad parhaus i fudd y cyhoedd fel y mae'n berthnasol i addysg. Rhaid i'r darparwr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog drafod datblygu'r datganiad budd y cyhoedd gyda'r myfyrwyr ar ei gyrsiau dynodedig.

60. Wrth ddarparu'r datganiad, dylai'r darparwr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog ystyried y canllawiau a nodir isod.

    <u>Enw'r darparwr</u>

61. Rhaid i ddatganiadau budd y cyhoedd gynnwys enw a chyfeiriad y darparwr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog, fel rhan o'r datganiad. Rhaid i'r datganiad fod yn ddogfen ar wahân y gellid ei chyhoeddi ar ei wefan.

Partneriaeth gyda myfyrwyr

62. Mae Medr yn ymrwymedig i sicrhau trefniadau cryf ar gyfer gweithio mewn partneriaeth gyda myfyrwyr. Yn unol â'r safbwynt hwn, rydym yn disgwyl i ddarparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog fanylu ar sut y maent yn cynnwys myfyrwyr, ar eu cyrsiau dynodedig, fel partneriaid. Mae ein disgwyliadau o ran yr hyn y dylid ei gynnwys wedi'u nodi yn y templed.

Grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a chyfle cyfartal

63. I ddangos bod y darparwr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog yn gwella cyfle cyfartal, dylai adnabod, ac egluro sut y mae'n cefnogi grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch ac yn y proffesiwn addysgu.

64. Dylai'r grwpiau blaenoriaeth hyn gael eu rhestru yn y datganiad. Wrth ddangos tystiolaeth bod y darparwr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog yn gwella cyfle cyfartal rhaid iddo ddangos ei fod yn mynd ati'n frwd i geisio denu a chadw grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch, gan gynnwys grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn y proffesiwn addysgu. Rydym yn cydnabod bod gwahanol ffyrdd o ddiffinio 'grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch'. Gallai diffiniadau gynnwys diffyg cynrychiolaeth ddigonol yng nghorff myfyrwyr y sefydliad, gan gynnwys myfyrwyr mewn sefydliadau partner, yn ogystal â diffyg cynrychiolaeth ddigonol yn y system addysg uwch yn fwy cyffredinol. Gall unigolion â nodweddion gwarchodedig, fel y'u diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, fod heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch[16].

65. Mae enghreifftiau o unigolion heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch y mae Medr o'r farn y dylai darparwyr AU wneud mwy i ymgysylltu â hwy yn cynnwys ymgeiswyr a myfyrwyr o bob oed:
- sy'n byw yn nau gwintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ac ardaloedd Polar 4 y DU,[17]
- ag anableddau, gan gynnwys cyflyrau iechyd meddwl,
- o gymunedau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol,
- dros 21 oed,
- yng Nghymru, sy'n astudio'n gyfan gwbl neu'n rhannol trwy gyfrwng y Gymraeg,
- sy'n fyfyrwyr gwrywaidd ifainc o ardaloedd â chyfranogiad isel,
- sy'n byw mewn cartrefi heb waith,
- sydd â phrofiad o fod mewn gofal,[18]
- sy'n oedolion a/neu blant o gefndiroedd y lluoedd arfog,
- sy'n ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches,
- sy'n cael Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA),
- a fu'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim,
- sydd y cyntaf yn y teulu i gael addysg uwch, a hefyd

[16] Nodweddion gwarchodedig yw: oedran; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas neu bartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; a rhyw.
[17] About POLAR and Adult HE
[18] Plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal

- rhai cyn-droseddwyr.

66. Ar wahân yn y datganiad, rhaid i'r darparwr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog ddisgrifio'r camau y mae'n eu cymryd i ddenu a chadw ymgeiswyr a myfyrwyr o'r grwpiau hyn. Gallai'r camau gweithredu hyn gael eu disgrifio yng nghyd-destun dulliau, gweithgareddau neu wasanaethau penodol wedi'u targedu a ddarperir gan y darparwr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog.

Esboniad ar gyfer yr amcanion, y targedau a'r gweithgareddau

67. Rhaid i ddarparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog gynnwys esboniad byr sy'n egluro sut y mae pob amcan a tharged yn cyd-fynd â dogfennau strategol a chorfforaethol allweddol y sefydliad, gan gynnwys y strategaeth gorfforaethol a strategaethau tanategol gan gynnwys, lle y bo'n berthnasol, ei gynllun cydraddoldeb strategol. Rhaid i ddarparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol-Ganolog egluro sut y maent yn bwriadu adolygu eu hamcanion, eu targedau a'u gweithgareddau i fesur a hyrwyddo ei lwyddiant a dangos uchelgais y sefydliad i wella eu cyfraniad at fudd y cyhoedd.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru


2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ



Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**